Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

18 Gorffennaf 2019

Karen Baxter
Y Cydlynydd Cenedlaethol ar gyfer Troseddau Economaidd

Trwy e-bost – darryl.preston@apccs.police.uk

Annwyl Karen

Diolch am y cyfle i adolygu'r Strategaeth Genedlaethol ddrafft ar gyfer Plismona Twyll a chynnig sylwadau.

Mae'n galonogol gweld bod y strategaeth genedlaethol yn cynnwys adran ar leihau erledigaeth trwy ymgyrchoedd sy'n cael eu cydlynu'n genedlaethol a chyngor atal trosedd wedi'i dargedu sy'n dylanwadu ar newid ymddygiad yn effeithiol. Rwy'n credu bod cyfathrebu, addysg chyflwyno'r neges Atal llawn mor bwysig â mynd i'r afael â'r achosion sy'n effeithio ar ein cymuned leol ac ymchwilio iddynt. I'r perwyl hwn, bydd Grŵp Cysylltu â Chymunedau ein heddlu'n sicrhau bod hyn yn cael ei gyflenwi yn lleol.

Rwy'n hyderus bod Dyfed-Powys fel heddlu yn cydnabod yr heriau mawr a gyflwynir gan dwyll. Maen nhw wedi profi hyn drwy gyflwyno Uned Seiberdroseddu benodol.

Fe'm sicrhawyd bod strategaeth Heddlu Dyfed-Powys yn cael ei datblygu ac yn cydymffurfio ag argymhelliad AHGTAEM, sef cynhyrchu strategaeth leol erbyn mis Medi.

Rwy'n hyderus y bydd ffocws parhaus Heddlu Dyfed-Powys ar y maes hwn yn sbarduno'r gwelliannau sydd angen. Bydd fy swyddfa'n parhau i weithio gyda'r heddlu er mwyn sicrhau ein bod ni'n amddiffyn ein cymunedau rhag bygythiadau difrifol ac yn diogelu'r rhai sy'n agored i niwed, sy'n flaenoriaeth allweddol o fewn fy nghynllun heddlu a throseddu.

Yr eiddoch yn gywir

**Dafydd Llywelyn**
**Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

Copi at: Y Prif Gwnstabl Mark Collins